

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWDYD YN YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AR NOS LUN 29AIN O FEHEFIN 2015 AM 7.300'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stanley Williams (Cadeirydd), Hywel Davies, Philip Williams, Jill Evans, Gwennan Hughes, Iwan Jones, Elfed Williams, Barri Evans a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Iona Edwards-Jones, Falmai Evans a Chynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 18fed o Fai 2015 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd ymateb Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ganlynol:-

1. Mae'r Adran wedi trwsio'r ffordd Ystrad, Dinbych tuag at Brion.
2. Mae'r wal perygl rhwng yr King's Head a'r Lodge yn Llanrhaeadr ddim ym mherchen i'r Cyngor Sir.
3. Mae'r ffordd heibio Fferm y Coleg, Peniel wedi ei thrwsio bellach.
4. Mae'r arwydd ffordd wrth Brŷn Glas, Saron wedi ei ail osod erbyn hyn.
5. Mae'r llinell wen wrth Siop-y-Pentre, Llanrhaeadr wedi ei ail pheintio.
6. Ni does yna broblem ar y ffordd rhwng Capel Saron a Bryn Glas.
7. Mae'r broblem gwastraff yn Dŷ'r Ysgol, Pant Pastynog wedi ei ddatrys erbyn hyn.
8. Mae'r arwydd ffordd rhwng Llanrhaeadr a Prion wedi ei ail osod erbyn hyn.
9. Mae BT wedi ail osod y cabl rhwng Llanrhaeadr a Prion.
10. Mi fydd yna dau doriad glaswellt ffyrdd yn ystod y tymor 2015.

B. Nid mae'i is-bwyllgor wedi cyfarfod eto i drafod manylion lloches bws newydd yn Saron.

C. Trwy'r caredigrwydd y Cynghorydd Iona Edwards-Jones mae'r sylwadau'r Cyngor wedi ei hanfon ynglŷn ar geisiadau cynllunio canlynol:-

1. Tyrbin Wynt ar dir yng Nghefn Yfed, Cyffylliog.
2. Llinell trydan cysylltu Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru.

D. Mae'r aelodau yn dal i ddisgwyl am amcan bris i drwsio'r wal y Gof Golofn yn Llanrhaeadr.

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £15,480.00.

B. Taliad – Hacker Young – Archwiliwr Allanol am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2015 - £246.00.

C. Penderfynwyd yr aelodau at gyfraniad gost cyfrifiadur newydd y Clerc.

5. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Trosiad y cyn Eglwys i ddwy uned breswyl yn St. James's Church, Prion - dim gwrthwynebiad.

B. Estyniad i 21 Cae'r Felin, Llanrhaeadr.

C. Adeiladu preswyl unllaw'r ar gae yng Nghae'r Mynydd (cais amlinell) - penderfynwyd gwrthwynebu'r cais gan nad oedd o fewn yr "Local Development Plan" lleol ac nad oedd yn llenwi bwloch rhwng dau breswyl.

D. Cais Cynllunio am Fferm Wynt ar dir i'r dwyrain o Lŷn Brenig, Nantglyn - penderfynwyd trafod y sylwadau yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

6. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

7. UNRHYW FATER ARALL.

A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

1. Hysbysebu'r perchennog y wal beryg rhwng yr King's Head a'r Lodge yn Llanrhaeadr.
2. Glaswellt ar y Llwybr Cyhoeddus wrth Gapel Saron eisiau ei thorri.
3. Arwydd rhwng Cefn-y-Maen a Nant-y-Ci eisiau sylw.
4. Ffordd rhwng Meifod a Chapel Saron eisiau sylw.
5. Arwydd Dinbych ar ffordd Prion eisiau sylw.
6. Ffordd rhwng Llanrhaeadr at Brion heibio Graig Lwyd eisiau sylw.
7. Gofyn pryd bydd ffordd heibio Gron, Prion yn cael wyneb newydd.
8. Pryd bydd toriad cyntaf glaswellt y Plwyf.
9. Ffordd gyferbyn a Chapel Saron eisiau sylw.

B. Derbyniwyd gwybodaeth bod "Google" a'r "BBC" yng ngham sillafu "Llanrhaiadr".

C. Derbyniwyd gwybodaeth gan Y Cynghorydd Elfed Williams bod Pwyllgor y Ffynnon wedi derbyn grant gan y Loteri Genedlaethol o £290,000.00.

D. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ddiolch i'r Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am eu cefnogaeth i'r arwyddion cwtogi cyflymdra traffic o flaen yr Ysgol.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 27ain o Orffennaf 2015 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.